# TAR Uwchradd Cymraeg
# Llythyr Croeso Haf 2023!

Helo, bawb! Llongyfarchiadau mawr ar ennill lle ar y cwrs TAR Cymraeg Uwchradd! Edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Medi, yn barod am gyfnod newydd yn eich gyrfa.

Er mwyn dechrau paratoi am y flwyddyn brysur, heriol a chyffrous sydd o'ch blaen, dyma rai ffynonellau defnyddiol i chi o ran iaith, y cwricwlwm ac Addysg. Byddant yn darparu man cychwyn da gyda pheth o'r wybodaeth a'r sgiliau fydd angen i chi eu datblygu wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen. Digon yma i roi blas i chi o'r maes a'r Gymraeg!

1. **Ebostiwch Gmorgan@cardiffmet.ac.uk i gadarhau eich lle ar y cwrs pan rydych yn derbyn y llythyr hwn.**

2. Ystyriwch **gyfrwng iaith** eich lleoliadau y flwyddyn nesa. Ydych chi eisiau 2 leoliad cyfrwng Cymraeg, 2 leoliad cyfrwng Saesneg neu gyfuniad o'r 2 (lleoliad cyfrwng Cymraeg a lleoliad cyfrwng Saesneg)? Bydd modd cadarnhau eich dewis ym mis Medi.

3. **Gwaith Iaith.** Mae Admissions yn danfon gwybodaeth ar wahân yn cynnwys canllawiau i gefnogi sgiliau iaith myfyrwyr Cymraeg a chyfrwng Cymraeg cyn cychwyn y rhaglen. Os ydych eisiau ffocysu ar agweddau penodol, gallwch fanteisio ar ymarferion iaith Y Coleg Cenedlaethol – adnoddau agored – sydd yn cynnwys cyfres o ymarferion ar agweddau iaith penodol a hefyd cefnogaeth i ddarpar athrawon wrth gefnogi iaith eu dysgwyr:

   http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/adnoddau/;
   http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/adnoddau/sgiliauiaithathrawon/.

4. **TGAU / Uwch Gyfrannol / Safon Uwch.** Chwiliwch ar wefan CBAC am gyn-bapurau a manylebau Cymraeg: Hafan (cbac.co.uk). Wrth i chi weithio trwy'r papurau - y rhai TGAU yn enwedig, meddyliwch am gamsyniadau rydych yn meddwl y gallai dysgwyr eu gwneud gyda rhai o'r cwestiynau. Dylech ffocysu ar y math o iaith a ddefnyddir yn y papurau gwahanol, terminoleg bynciol, gramadeg ac yn y blaen. Cofiwch fod y cyrsiau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch wedi newid ychydig ers i chi fod yn yr ysgol, felly bydd treulio ychydig o amser yn ymgyfarwyddo â chynnwys y manylebau yn help anferth cyn dechrau. Dyma'r dolenni i'r adrannau perthnasol am y Gymraeg / Cymraeg Ail Iaith:

- Adnoddau Digidol
- Adolygiad Arholiad Ar-lein
- Gwefan Ddiogel
- Banc Cwestiynau
- Cyn-bapurau

5. Mae BBC Bitesize yn cynnwys llawer o adnoddau defnyddiol am y 2 gwrs TGAU Cymraeg – adnoddau a chlipiau fideo: Welsh Second Language - BBC Bitesize; Welsh Literature - BBC Bitesize.

6. **Gwnewch ychydig o ddarllen cefndirol.** Yn ogystal â darllen er pleser dros y gwyliau, beth am gael cip trwy rai dogfennau allweddol yn y maes Addysg a'r Gymraeg. Dyma rai awgrymiadau i chi isod – gwefannau a rhai llyfrau dethol.

- Cwricwlwm i Gymru:

https://llyw.cymru/cwricwlwm-gymru

- Maes Dysgu a Phrofiad: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 2022:

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/

Adnoddau digidol defnyddiol:

- Hwb (gov.wales) – trysorfa o adnoddau ar lein i athrawon
- Llais 21 (hybu sgiliau llafar): https://sites.google.com/hwbcymru.net/prosiect-llafaredd-llais21/adref

Darllen pellach i roi blas cychwynnol o'r maes addysgeg:


- Capel, S., Leask, M. and Turner, T. (2016), *Learning to teach in the secondary school*, Llundain: Routledge.
- Lemov, D., (2021) *Teach Like a Champion 3.0*, Jossey-Bass.
- Môn, E., Thomas D., & Parry N. (2018) *Dulliau Addysgu Dwyieithog*, Prifysgol Bangor.
- Smith, S. & Conti, G. (2016), *The Language Teacher Toolkit*, Create Space Independent Publisher Platform


I gloi, edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda chi i gyd ym mis Medi. Os oes cwestiynau gyda chi yn y cyfamser, cysylltwch nôl yn syth.

Gyda phob dymuniad am wyliau da cyn y gwaith mawr ym mis Medi!

Gina & Rhian


*Dr Gina Morgan:* gmorgan@cardiffmet.ac.uk Arweinydd Llwybr TAR Cymraeg Uwchradd

*Rhian Wyn Griffiths:* RGriffiths2@cardiffmet.ac.uk Tiwtor TAR Cymraeg Uwchradd